



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Penderfyniad Rheoleiddiol

Penderfyniad Rheoleiddiol - RBB-C19-017: Ymateb Coronafeirws – Storio gormod o wastraff ar safle trwyddedig

**Mae'r penderfyniad hon yn berthnasol fel mesur argyfwng
dros dro yn unig. Mae'n destun adolygiad.**

Mae'r Penderfyniad Rheoleiddiol (PRh) hwn yn gymwys i'r sefyllfa dros dro lle mae'n rhaid i safleoedd gwastraff trwyddedig storio gormod o gwastraff heb wneud cais am amrywiad trwydded o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws yn unig.

Fel arfer, mae angen i chi fodloni'r amodau yn eich trwydded amgylcheddol o ran storio gwastraff. Fodd bynnag, os byddwch yn dilyn yr amodau yn y PRh hwn gallwch storio fwy na'r terfynau hyn am gyfnod dros dro.

Amodau y mae'n rhaid i chi ddilyn

Os ydym yn cytuno i chi ddefnyddio'r PRh hwn, gallwch ragori ar y terfynau storio gwastraff dros dro heb wneud cais am amrywiad i'ch trwydded.

Rhaid i chi barhau i gydymffurfio â'r gofynion eraill yn eich trwydded a'r amodau yn yr PRh hwn.

Dim ond tan 30 Mehefin 2020 y cewch fynd dros eich terfynau storio, pan fydd y PRh hwn yn cael ei adolygu.

Mae'r PRh hwn ond yn berthnasol pan fydd angen i chi ofyn i ragori ar y terfynau storio yn eich trwydded o ganlyniad i coronafeirws. Rhaid i chi ddangos eich bod

wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â'r terfynau storio yn eich trwydded. Mae camau rhesymol yn cynnwys:

- cynlluniau wrth gefn i gynnal cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddio ac i osgoi neu leihau amhariad i'ch busnes oherwydd Coronafeirws
- cynllunio ymateb brys i leihau i'r eithaf y graddau y byddwch yn ragori y derfynau storio gwastraff yn eich trwydded, ac i leihau yr effaith a Cyfnod byddwch yn peidio â chydymffurfio â'ch trwydded

Mae'r PRh hwn yn gymwys yn unig i beidio â chydymffurfio â therfynau storio yn trwyddedi sydd wedi digwydd o ganlyniad uniongyrchol i bandemig y Coronafeirws ar ôl dyddiad mabwysiadu'r RD hwn, ac nid yw'n gymwys i ddiffyg cydymffurfio cyfredol sy'n dyddio o cyn y pandemig.

Cyn i chi ddefnyddio'r PRh hwn, rhaid i chi gael cytundeb ysgrifenedig eich bod yn gallu gwneud hynny oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru:

Cysylltwch â'ch swyddog rheoleiddio.

Mae'r PRh hwn ond yn berthnasol:

- Os ydym wedi cytuno gallwch ei ddefnyddio
- lle gallwch ddangos bod angen i chi storio gormod o wastraff oherwydd aflonyddwch a achosir gan Coronafeirws
- i'r fathau o wastraff caniateir i'w storio o dan eich trwydded
- i storio gwastraff dros dro uwchlaw'r terfynau a nodir yn eich trwydded-nid yw'n berthnasol i unrhyw gyfleusterau eraill a reoleiddir neu ofynion rheoliadol

Rhaid i chi wneud yn siŵr nad ydych yn peryglu iechyd pobl na'r amgylchedd. Ni ddylech:

- achosi perygl i ddŵr, aer, pridd, planhigion neu anifeiliaid
- achosi niwsans drwy sŵn neu arogleuon
- effeithio'n andwyol ar gefn gwlad neu fannau o ddiddordeb arbennig

Rhaid i chi hefyd:

- cael caniatâd ysgrifenedig gan y tîrfeddiannwr ar gyfer eich cynnig i storio mwy o wastraff

- cael cytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ddefnyddio'r PRh hwn – gan gynnwys cytundeb ysgrifenedig ar gyfer y mathau a'r meintiau o wastraff yr ydych am ei storio dros dro a'r lleoliadau storio
- storio'r wastraff o fewn y ffin safle a ganiateir.
- cadw pob man storio yn ddiogel i atal mynediad anawdurdodedig
- gofalu fod y gwastraff rydych yn ei dderbyn ar y safle yn cael ei reoli ar sail cylchdro caeth, fel bod gwastraff sy'n cael ei dderbyn ar y safle yn gyntaf yn cael ei dynnu o'r safle yn gyntaf a'ch bod yn gwahanu gwastraff o wahanol oedran
- cynnal adolygiad ysgrifenedig o'r risgiau a sut y byddant yn effeithio ar gynlluniau perthnasol sy'n bodoli eisoes, er enghraifft, eich system reoli a'ch cynllun rheoli ac atal tân (FPMP) - os byddwch yn newid eich cynllun atal tân, rhaid ichi sicrhau bod y cynllun yn dal i fodloni'r amcanion yn [ein canllawiau](#).
- gwneud cofnod o unrhyw newidiadau i gynlluniau perthnasol a chydymffurfio â'r cynlluniau diwygiedig, gan gynnwys newidiadau a wnaed i'ch system rheoli amgylcheddol (EMS) a FPMP – rhaid i chi sicrhau bod y cofnod o newid ar gael i bob aelod o staff ac i Cyfoeth Naturiol Cymru ar gais
- cadw gofnodion i ddangos eich bod wedi cydymffurfio â'r amodau yn y PRh hwn am 12 mis – rhaid i'r rhain fod ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru ar gais
- gwneud yn siŵr bod yr holl wastraff sy'n uwch na'r terfynau yn eich trwydded yn cael ei symud o'r safle o fewn 3 mis ar ôl ei derbyn ar y safle - ac ym mhob achos, erbyn 30 Mehefin 2020 pan gaiff yr PRh hwn ei adolygu.

Rhaid I chi ddim:

- ar unrhyw un adeg, storio fwy o wastraff o fath a ganiateir o dan eich trwydded na'r cyfanswm a ganiateir gan eich trwydded - Mae'n rhaid i unrhyw swm ychwanegol gael ei gytuno'n ysgrifenedig gan Cyfoeth Naturiol Cymru
- storio gwastraff am fwy na 3 mis

Pan fyddwch wedi symud yr holl fwastraff uwchlaw terfynau eich trwydded, rhaid i chi weithredu eich trwydded yn unol â'ch:

- EMS
- FPMP
- unrhyw system ysgrifenedig arall a nodir yn eich trwydded a oedd ar waith cyn i chi ddefnyddio'r PRh hwn.

Gorfodaeth

Mae PRh yn golygu na fydd Cyfoeth Naturiol Cymru fel arfer yn cymryd camau gorfodi yn eich erbyn a ddarperir os ydych yn sicrhau:

- mae eich gweithgaredd yn bodloni'r disgrifiad a nodir yn y PRhD
- eich bod yn cydymffurfio â'r amodau a nodir yn y PRh
- nad yw eich gweithgarwch yn achosi llygredd amgylcheddol nac yn debygol o beri niwed i iechyd pobl
- eich bod wedi cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r gweithgaredd o dan eich trwydded

Os ydych yn credu na fyddwch yn gallu cydymffurfio â'r amodau, rhaid i chi ddweud wrth Cyfoeth Naturiol Cymru ar unwaith.

Natural Resources Wales will monitor how operators use and comply with this RD through its proportionate, risk-based inspection and monitoring activity. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn monitro sut mae gweithredwyr yn defnyddio a cydymffurfio â'r PRh hwn drwy arolygu a monitro cymesur, seiliedig ar risg.

Pan fyddwn yn ystyried a ydym am arfer ein disgrisiwn gorfodi ac yn caniatáu i chi weithredu o dan y RD hwn, byddwn yn edrych ar:

- a yw amodau a safle'r drwydded yn addas - gan gynnwys y seilwaith sydd ar waith a lleoliad y safle
- y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ar y safle
- rheolaeth weithredol y safle gan gynnwys eich hanes perfformiad blaenorol
- unrhyw ffactorau perthnasol eraill

Bydd defnydd o'r PRh hwn yn cael ei gofnodi fel diffyg cydymffurfio ag amodau eich trwydded, ond bydd unrhyw sgôr yn cael ei gohirio ac ni fydd yn effeithio ar eich sgôr cydymffurfio ar yr amod eich bod yn cydymffurfio â'r amodau a nodir ynddi.

Pryd I gwirio y penderfyniad yma

Bydd y PRh hwn yn cael ei adolygu erbyn 30ain Mehefin 2020.